# Bro Morgannwg
# Strategaeth Llyfrgelloedd 2022-2027



Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau

**Strategaeth Llyfrgelloedd Bro Morgannwg 2022-2027**

## EIN DATGANIAD GWELEDIGAETH

Ein gweledigaeth yw darparu gwasanaeth llyfrgelloedd a gwybodaeth modern sy'n diwallu anghenion newidiol ein cymunedau. Bydd y gwasanaeth yn gynhwysol, yn gynaliadwy, yn addasadwy, yn ddibynadwy ac o ansawdd uchel.

## EIN CENHADAETH

Ein cenhadaeth yw ysbrydoli darllen a dysgu, rhannu adnoddau a gwybodaeth, cysylltu pobl trwy weithgareddau a chyfleoedd, hyrwyddo a darparu mynediad i ddiwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg; ac i wneud hyn i gyd yn y llyfrgell, mewn cymunedau, gartref ac ar-lein.

Rydym yn rhannu gwerthoedd ein Cyngor: sef i fod yn uchelgeisiol, agored, ynghyd, a balch. Uchelgeisiol o ran meddwl gyda golwg ar y dyfodol, gan groesawu ffyrdd newydd o weithio. Agored i syniadau gwahanol a ffyrdd arloesol o ddarparu gwasanaethau. Ynghyd o ran cydweithio â'n staff, partneriaid a chymunedau. Rydym yn falch o wasanaethu a dathlu ein cyflawniadau.

## CEFNDIR A CHYD-DESTUN STRATEGOL

### Dyletswyddau Statudol y DU

O dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964, mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol **"i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon i bawb sydd am wneud defnydd ohono".**

Wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn, mae'r dyletswyddau eraill a nodir ar gyfer Awdurdodau Lleol yn cynnwys:

- Annog oedolion a phlant i wneud defnydd llawn o'r gwasanaeth llyfrgell
- Darparu llyfrau print a deunyddiau eraill am ddim i'r rhai sy'n byw, gweithio neu astudio yn yr ardal

### Strategaeth Llywodraeth Cymru

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi amcanion ar gyfer pob Awdurdod Lleol o ran y nodau llesiant canlynol:

- Cymru lewyrchus • Cymru gydnerth • Cymru iachach • Cymru fwy cyfartal

- Cymru o gymunedau cydlynol • Cymru â diwylliant bywiog a iaith Gymraeg sy’n ffynnu • Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Llyfrgelloedd cysylltiedig ac uchelgeisiol: chweched fframwaith ansawdd safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru 2017 i 2020

Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg

Strategaeth Diwylliant Cymru - wrthi’n cael ei datblygu ar hyn o bryd

**Cyngor Bro Morgannwg**

Wrth lunio'r cynllun hwn, bydd Llyfrgelloedd Bro Morgannwg yn gweithredu o fewn cyd-destun cynlluniau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd hefyd yn cynnwys y canlynol: -

Gweithio gyda’n gilydd am ddyfodol disgleiriach: Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2020-2025

Mae amcanion llesiant Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg yn nodi 4 amcan allweddol sef:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy
- Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi ac yn eu cymuned
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd

Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 2023-2028

**GWASANAETH LLYFRGELLOEDD BRO MORGANNWG**

Mae gan y Fro 4 llyfrgell llawn amser yn Y Barri, Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth sy'n cael eu rhedeg gan staff y Cyngor. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â 5 llyfrgell a gefnogir gan y gymuned yn Ninas Powys, Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô. Mae pob llyfrgell gymunedol ar wahân yn cael ei rhedeg gan fwrdd ymddiriedolwyr neu gyfarwyddwyr gwirfoddol a thîm ymroddedig o staff gwirfoddol. Mae llyfrgelloedd cymunedol yn elwa o stoc lyfrau'r Cyngor, darpariaeth TGCh a rhywfaint o gefnogaeth staff ond fel arall yn talu costau pob darpariaeth arall eu hunain. Mae pob llyfrgell yn gweithio o'r un system rheoli llyfrgelloedd ac mae ystadegau llyfrgelloedd cymunedol wedi'u cynnwys yn adroddiad blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru i Lywodraeth Cymru.

Mae pob llyfrgell yn cynnig amrywiaeth o ddeunyddiau darllen, cyfrifiaduron cyhoeddus a wi-fi. Mae gan bob llyfrgell, yn dibynnu ar eu maint, leoedd i gyfarfod ac astudio ac maen nhw’n darparu amrywiaeth o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn.

Mae gan y gwasanaeth llyfrgelloedd Wasanaeth Danfon i Gartrefi i bobl nad ydynt yn gallu gadael eu cartref i ymweld â llyfrgell eu hunain. Mae llyfrau'n cael eu danfon gan wirfoddolwyr bob mis am ddim.

Mae Llyfrgell Ddigidol 24/7 yn rhoi dewis eang o adnoddau am ddim, gan gynnwys e-lyfrau, e-lyfrau llafar ac e-gylchgronau. Mae mynediad i ystod o adnoddau tanysgrifio ar-lein hefyd yn boblogaidd, gan gynnwys gwefannau achau Find My Past Ac Ancestry, a'r wefan TheoryTest Pro ar gyfer gyrwyr sy'n dysgu. Yn ogystal, mae dolenni i safleoedd papurau newydd a chylchgronau a phapurau newydd dyddiol ar gael ar PressReader.

Gallai bob defnyddiwr llyfrgell gael mynediad PIN i'w cyfrifon aelodaeth eu hunain lle gallant wirio llyfrau y maent wedi'u darllen o'r blaen, ymuno â rhestr aros neu archebu eitemau ac adnewyddu eitemau. Ar gais, gall defnyddwyr hefyd gael mynediad i lyfrgell Penarth y tu allan i oriau agor gan ddefnyddio'r system Open+.

## EIN HAMCANION STRATEGOL

Mae gan ein holl weithgareddau a digwyddiadau llyfrgell ganlyniad llesiant ac mae ein hamcanion llyfrgell yn cyd-fynd â'r rhan fwyaf o amcanion Llesiant y Cyngor, sef:

**Gweithio gyda a thros ein cymunedau**
**Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy**
**Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned**
**Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd**

Rydym am i'n hamcanion strategol gael eu cyflawni o fewn 2-3 blynedd.

## AMCAN: Darparu mynediad at ystod eang a pherthnasol o adnoddau darllen i ddiwallu anghenion ein preswylwyr

## CAMAU GWEITHREDU:

- Prynu llyfrau ac adnoddau newydd ym mhob fformat drwy gydol y flwyddyn i oedolion a phlant, am y gwerth gorau drwy Gonsortiwm Prynu Cymru Gyfan
- Parhau i brynu copïau lluosog priodol o lyfrau y mae galw mawr amdanynt i reoli rhestrau aros
- Darparu a rheoli amrywiaeth o gasgliadau llyfrau i gefnogi grwpiau darllen
- Parhau i fenthyg a benthyca llyfrau am ddim rhwng pob llyfrgell yng Nghymru ac i gefnogi gwasanaeth archebu Books4U gydag awdurdodau cyfagos

**AMCAN: Hyrwyddo llyfrau a darllen er pleser, dysgu a llythrennedd drwy amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- Cyflwyno amser odli neu amser stori wythnosol i blant ym mhob un o lyfrgelloedd y Cyngor ac annog yr un peth mewn llyfrgelloedd cymunedol
- Cynyddu a chefnogi nifer y gweithgareddau Cymraeg i blant mewn llyfrgelloedd
- Gweithio gyda Booktrust Cymru i ddarparu Dechrau Da a chydweithio gyda'r Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd i sicrhau bod pecynnau Babanod a Blynyddoedd Cynnar yn cael eu rhoi i deuluoedd drwy'r cynllun Dechrau Da
- Cynnal rhaglen o weithgareddau am ddim neu fforddiadwy i blant a theuluoedd yn ystod gwyliau'r haf
- Annog plant 4-12 oed i barhau i ddarllen dros wyliau'r haf drwy gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf a hyrwyddo hyn i ysgolion cyn diwedd tymor yr haf
- Hyrwyddo darllen er pleser i oedolion ac annog oedolion i ehangu eu gorwelion darllen er budd personol a dysgu, a gwneud hyn drwy hyrwyddo llyfrau, drwy'r cyfryngau cymdeithasol, drwy grwpiau darllen a thrwy weithgareddau mewn llyfrgelloedd

**AMCAN: Hyrwyddo mynediad at lyfrau mewn gwahanol fformatau i ehangu mynediad**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- Darparu adnoddau digidol fel e-lyfrau sain, e-lyfrau ac e-gylchgronau i oedolion a phlant yn Gymraeg a Saesneg
- Prynu nifer cynyddol ond bach iawn o lyfrau llafar Cymraeg, llyfrau print bras ac e-lyfrau ar gyfer defnyddwyr llyfrgelloedd
- Darparu Gwasanaeth Llyfrgell Gartref misol i bawb sy'n methu ymweld â'u llyfrgell yn bersonol

**AMCAN: Hyrwyddo iechyd a llesiant**

**CAMAU GWEITHREDU**

- Darparu sesiynau a gweithgareddau dysgu i gynorthwyo iechyd a lles ac i ddod â phobl ynghyd
- Darparu gwybodaeth iechyd a lles drwy ddolenni ar-lein fel cronfa ddata DEWIS
- Cynnal a hyrwyddo'r cynllun casgliadau llyfrau Darllen yn Well ar draws Llyfrgelloedd. Ymhlith y casgliadau mae Dementia, Iechyd Meddwl, Iechyd Meddwl Plant, Iechyd Meddwl Pobl Ifanc

- Cynnal digwyddiadau iechyd a lles yn y llyfrgell ac annog cyfranogiad a rhannu gwybodaeth
- Parhau i hyfforddi'r holl staff i ddod yn Gyfeillion Dementia a datblygu llyfrgelloedd yn fannau sy'n deall dementia

**AMCAN: Dod â phobl a chymunedau at ei gilydd ac annog cyfranogiad**

**CAMAU GWEITHREDU**

- Parhau i gynnal boreau coffi ac ystod o sesiynau galw heibio anffurfiol
- Cefnogi a hyrwyddo grwpiau Gwau a Sgwrsio, grwpiau darllen, grwpiau gemau a eraill
- Gweithio gyda grwpiau ffrindiau llyfrgell i ddatblygu eu hawgrymiadau ar gyfer cefnogi llyfrgelloedd
- Darparu profiad gwaith a chyfleoedd hyfforddi i wirfoddolwyr sydd eisiau ennill sgiliau newydd neu wella sgiliau presennol

**AMCAN: Datblygu gweithgareddau Gofod Gwneud yn Llyfrgelloedd y Barri a Phenarth**

**CAMAU GWEITHREDU**

- Trwy'r Swyddog Gofod Gwneud, datblygu rhaglen o weithgareddau dysgu a grëwyd yn y llyfrgell ar gyfer oedolion a phlant, gyda rhai ohonynt am ddim
- Cydweithio â Dysgu Oedolion yn y Gymuned a phartneriaid a sefydliadau eraill i gynnal ystod o weithgareddau i ddysgwyr yn y Gofodau Gwneud i gyflwyno ac ehangu sgiliau newydd
- Darparu cyfleoedd i ddefnyddwyr unigol weithio yn y Gofodau Gwneud i ddilyn eu diddordebau eu hunain, boed yn ddigidol, crefft neu gerddoriaeth
- Gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gan staff a gwirfoddolwyr y sgiliau a'r wybodaeth ddiweddaraf i gefnogi defnyddwyr yn ddigidol

**AMCAN: Sicrhau bod offer TG a chyfleusterau digidol priodol ar gael yn ein Llyfrgelloedd**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- Gwella ansawdd cyfrifiaduron cyhoeddus a wi-fi am ddim ym mhob Llyfrgell a chynnig cyngor a chefnogaeth i lyfrgelloedd cymunedol fel y gallant wneud yr un peth

- Disodli'r ciosgau hunan-gyhoeddi presennol gyda chiosgau newydd yn llyfrgelloedd y cyngor
- Darparu opsiwn talu â cherdyn yn llyfrgelloedd y cyngor a galluogi taliadau ar-lein ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau
- Cefnogi'n weithredol y broses o gaffael system rheoli llyfrgelloedd newydd a rennir a llwyfan digidol i Gymru (LMS Cymru) drwy ddull consortiwm gyda phob awdurdod arall yn Llyfrgell Gyhoeddus Cymru
- Ystyried ymestyn Hybiau i Lyfrgelloedd y Bont-faen a Llanilltud Fawr i roi mynediad mwy hyblyg i ddefnyddwyr at gynnwys digidol

**AMCAN: Darparu e-adnoddau ac adnoddau digidol o'r radd flaenaf**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- Sicrhau mynediad hawdd at e-adnoddau, gan gynnwys e-lyfrau, e-lyfrau sain, e-gylchgronau yn Gymraeg a Saesneg i oedolion a phlant, a gweithio mewn cydweithrediad â llyfrgelloedd Cymru i ddatblygu casgliad ar y cyd ar gyfer holl ddefnyddwyr llyfrgelloedd Cymru
- Sicrhau bod ystod o adnoddau gwybodaeth ar-lein gan gynnwys papurau newydd ac adnoddau achyddiaeth yn cael eu darparu am ddim
- Parhau i weithio gyda The People's Collection a darparu cynnwys ar gyfer y wefan i rannu casgliad ffotograffau Llyfrgelloedd y Fro ar-lein yn ogystal ag adnoddau eraill
- Hyrwyddo ymhellach y cynllun iPad fel nad oes unrhyw un yn cael ei adael ar ôl wrth gyrchu cynnwys digidol

**AMCAN: Annog cynaliadwyedd a pharchu'r amgylchedd**

**CAMAU GWEITHREDU:**

- Datblygu partneriaeth waith gyda Benthyg i hyrwyddo caffis atgyweirio
- Hyrwyddo ailgylchu cymunedol
- Datblygu eco-ardd yn llyfrgell Penarth a rhedeg prosiect micro-wyrdd gydag ysgolion a phobl ifanc

.

## EIN HAMCANION GWEITHREDOL

Mae ein hamcanion gweithredol wedi'u rhestru ar ein Cynllun Tîm Blynyddol. Ar gyfer ein Cynllun Tîm presennol, gweler y dogfennau cysylltiedig.